**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 30 Mehefin 2015

**Cadeirydd Archwilio:** Y Cynghorydd David Simmons, Cadeirydd: Pwyllgor Archwilio Perfformiad

**Awdur yr Adroddiad:** Rhian Evans, Cydlynydd Archwilio

**Teitl:** Eitemau o'r Pwyllgorau Archwilio – Penderfyniadau'r Cabinet ar 2 Mehefin 2015 yn ymwneud ag Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn, ac Ysgol Rhewl

## 1. Am beth y mae'r adroddiad yn sôn?

Casgliadau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn dilyn ei ystyriaeth o alw i mewn penderfyniadau'r Cabinet a gymerwyd ar 2 Mehefin 2015 mewn perthynas ag Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn, ac Ysgol Rhewl.

## 2. Beth yw'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i'r Cabinet ynglŷn â thrafodaethau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r argymhellion sy'n gysylltiedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn:

3.1 derbyn canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad mewn perthynas â'r ddau benderfyniad a oedd yn destun y rhybuddion 'galw i mewn'; ac

3.2 mewn perthynas â'r argymhellion yn ymwneud ag Ysgol Rhewl yn cymeradwyo'r gwaith ychwanegol a argymhellir, fel yr amlinellir yn yr adroddiad cryno (Atodiad 1b).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2015 penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r canlynol:

<u>Mewn perthynas ag Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn:</u>

"(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol ardal newydd ar y ddau safle presennol;

(b) "cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i Gyngor Sir Ddinbych i gau Ysgol Llanfair D C ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016; ac i'r Eglwys yng Nghymru sefydlu Ysgol Ardal Wirfoddol a Reolir newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016" a

(c) nodi’r opsiwn i rieni wneud cais i anfon eu plant i Ysgol Pen Barras fel ysgol arall pe baent yn dymuno i’w plant aros o fewn ysgol Categori 1.”

Mewn perthynas ag Ysgol Rhewl:
“(a) nodi canfyddiadau’r ymgynghoriad ffurfiol i gau Ysgol Rhewl; a

(b) cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agor yr adeiladau ysgol newydd”

4.2 Cyhoeddwyd y penderfyniadau uchod ar wefan y Cyngor ar 3 Mehefin 2015 ac yn unol â Gweithdrefn ‘Galw i Mewn’ y Cyngor ni chafodd y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith er mwyn galluogi aelodau nad ydynt yn aelodau o’r Cabinet i alw i mewn y penderfyniadau ar gyfer eu harchwilio’n fanwl, os ydynt o’r farn eu bod yn teilyngu hynny.

4.3 Derbyniwyd ffurflen ‘Rhubudd Galw i Mewn’, a lofnodwyd gan y nifer gofynnol o gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o’r Cabinet, ar gyfer y penderfyniad yn ymwneud ag Ysgol Llanfair D C a Phentrecelyn ar 5 Mehefin 2015 ac mewn perthynas â’r penderfyniad yn ymwneud ag Ysgol Rhewl ar 8 Mehefin 2015. Derbyniwyd y ddau rhybudd hwn o fewn yr amserlen priodol o 5 diwrnod gwaith.

4.4 Oherwydd fod penderfyniad y Cabinet ar 2 Mehefin yn ymwneud â darpariaeth addysg y Cyngor, caniatawyd i aelodau cyfetholedig addysg statudol yr Awdurdod ar y pwyllgorau archwilio i gymryd rhan yn llawn yn y broses o ystyried y ceisiadau ‘galw i mewn’ fel aelodau pleidleisio llawn o’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

4.5 Yn unol â Rheolau Gweithdrefn ‘Galw i Mewn’ y Cyngor, roedd yn rhaid i’r Pwyllgor Archwilio ystyried y ceisiadau cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn. Er mwyn hwyluso hyn fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad roi caniatâd i’r ceisiadau gael eu hystyried fel ‘Materion Brys’ yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Mehefin 2015. Gall aelodau ddefnyddio’r cysylltiad isod i weld yr adroddiad a’r atodiadau a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2015:
https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=269&MId=5176&LLL=1

4.6 Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â dau benderfyniad y Cabinet a ‘alwyd i mewn’ ac mae crynodeb o’r prif bwyntiau a godwyd ynghlwm yn Atodiad 1 er gwybodaeth i’r Cabinet. Mae Atodiad 1a yn nodi’r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â’r penderfyniadau yn ymwneud ag Ysgol Llanfair D C ac Ysgol Pentrecelyn ac mae Atodiad 1b yn nodi’r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â’r penderfyniad yn ymwneud ag Ysgol Rhewl.

4.7 Wrth edrych ar Atodiadau 1 ac 1b, bydd y Cabinet yn sylwi bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad wedi dod i’r casgliad nad oedd digon o dystiolaeth mewn perthynas â’r ddau benderfyniad a wnaed gan y Cabinet i’r Pwyllgor ofyn i’r Cabinet ailystyried ei benderfyniadau o’r 2 Mehefin i gyhoeddi’r hysbysiadau statudol. Eto i gyd, yn achos Ysgol Rhewl daeth y Pwyllgor i’r casgliad y dylid gwneud mwy o waith i leddfu pryderon y gymuned a rhanddeiliaid mewn perthynas ag effaith andwyol posibl y

cynigion ar yr iaith Gymraeg yn y gymuned a sgiliau iaith Gymraeg disgyblion o Rhewl. Argymhellir hefyd y dylid gweithio gyda'r gymuned a'r rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'u pryderon ynglŷn â materion yn ymwneud â chapasiti'r safle yn Glasdir, rheoli trafnidiaeth a diogelwch y llwybr teithio i ddisgyblion ysgol gynradd a fyddai'n cerdded o Rhewl i Ruthun. Felly gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad mewn perthynas â hyn – fel y nodir yn Atodiad 1b.

**5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn cefnogi cyflenwi'r flaenoriaeth gorfforaethol a ganlyn, sef "gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion".

**6. Faint y bydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd angen cadw'r costau sy'n gysylltiedig â'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad o fewn cyllideb y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Eto i gyd, dylent fod yn fychan iawn gan eu bod yn cynnwys amser swyddogion i wneud gwaith gyda rhanddeiliaid a'r gymuned.

**7. Beth yw prif ganlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ynglŷn â'r penderfyniad? Dylid cynnwys templad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

Ni chwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r adroddiad hwn. Mae'r asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd at ddibenion y cynigion gwreiddiol i'r Cabinet ar 2 Mehefin 2015 yn parhau'n ddilys.

**8. Pa ymgynghori a gafwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae rhoi cyfle i'r Pwyllgor Archwilio alw i mewn penderfyniadau'r Cabinet er mwyn eu harchwilio'n fanwl yn rhan o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Trwy alw'r weithdrefn honno i rym bu'n bosibl i'r Pwyllgor Archwilio wneud sylwadau ac argymhellion mewn perthynas â'r penderfyniadau a wnaed yn amodol ar y rhybuddion galw i mewn. Hefyd, yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 11 Mehefin cafodd cynrychiolwyr o bob ysgol a gaiff ei heffeithio gyfle i annerch y Pwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y pwyntiau a godwyd yn cyfrannu at y broses ymgynghori ac o ganlyniad ni ddylent gynyddu'r gost. Daw costau gwirioneddol ynghyd â goblygiadauarbedion pob cynnig yn fwy eglur wrth i'r broses fynd rhagddi.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u hadnabod mewn perthynas ag ystyriaeth o'r adroddiad hwn. Gall fod risgiau i enw da y Cyngor os na fydd y Cabinet yn penderfynu cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad i ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid.

**11. Hawl i wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.2(ch) yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â phenderfyniadau a gymerwyd ond na chafodd eu rhoi ar waith eto gan y Cabinet, ac mae Erthygl 6.3.4(ch) yn nodi manylion pwerau'r Pwyllgor Archwilio o ran gwneud argymhellion i'r Cabinet sy'n codi o ganlyniad i'r broses archwilio.

**Swyddog Cyswllt:**
Rhian Evans
Rhif ffôn: 01824 712554
e-bost: rhian.evans@denbighshire.gov.uk